Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Hydref 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

93(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Effaith meigryn ar blant a phobl ifanc

(60 munud)

NDM8074 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) yr effaith a gaiff meigryn ar yr 1 ym mhob 10 plentyn a pherson ifanc sy'n byw gyda'r cyflwr, gan gynnwys yn yr ysgol a'u bywydau o ddydd i ddydd;

b) bod pobl ifanc y mae meigryn yn effeithio arnynt yn aml yn nodi ei fod yn ei gwneud hi'n anoddach i wneud eu gwaith ysgol, gan olygu y gall y cyflwr effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol heb gymorth priodol, yn ogystal ag amharu ar eu bywyd teuluol a chymdeithasol;

c) bod ymchwil gan y Migraine Trust yn awgrymu nad yw gweithwyr addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml yn deall meigryn, ac yn aml nid oes ganddynt fynediad at hyfforddiant ac adnoddau i roi cefnogaeth effeithiol i blant a phobl ifanc y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag'r Migraine Trust a chyrff cynrychioliadol ar gyfer ysgolion, gwasanaethau iechyd, a rhieni/gofalwyr er mwyn:

a) cryfhau'r canllawiau;

b) darparu hyfforddiant ar sut i gefnogi a darparu ar gyfer pobl ifanc y mae meigryn yn effeithio arnynt; a

c) darparu adnoddau i rieni/gofalwyr plant sy'n byw gyda meigryn ac i'r bobl ifanc eu hunain ar sut i gymryd rheolaeth o'u gofal eu hunain.

Cyd-gyflwynwyr

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionydd)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Tom Giffard (Gorllewin De Cymru)

Sam Rowlands (Gogledd Cymru)

7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Ail Gartrefi

(60 munud)

NDM8084 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Ail gartrefi', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Gorffennaf 2022.

8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Digwyddiadau mawr

(60 munud)

NDM8086 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030 Llywodraeth Cymru.

2. Yn credu bod digwyddiadau mawr yn helpu i roi hwb i swyddi a'r economi drwy arddangos Cymru i'r byd.

3. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n dangos diffyg uchelgais wrth ddod â'r cyfleoedd hyn i Gymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y strategaeth gan ganolbwyntio ar ddyhead, creadigrwydd ac arloesedd wrth ddenu digwyddiadau mawr i Gymru.

Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol Cymru 2022 i 2030

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg eu hymwreiddio'n bellach yn y strategaeth, gan gynnwys digwyddiadau mawr cynhenid fel yr Eisteddfod Genedlaethol, a'n bod yn arddel ddefnyddio Cymru yn hytrach na Wales yn rhyngwladol.

9 Cyfnod Pleidleisio

10 Dadl Fer

(30 munud)

NDM8085 Sam Rowlands (Gogledd Cymru)

Chwaraeon yng Ngogledd Cymru: sicrhau cyfleoedd i bawb

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 28/09/2022 i'w hateb ar 05/10/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

1 OQ58494 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU sydd newydd eu penodi ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol?

Peredur Owen Griffiths *Dwyrain De Cymru*

2 OQ58491 **(e)**

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

3 OQ58470 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau tlodi plant yn Sir Drefaldwyn?

Paul Davies *Preseli Sir Benfro*

4 OQ58469 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector wirfoddol?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

5 OQ58477 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd datganiad cyllidol Llywodraeth y DU yn ei gael ar allu pobl i dalu am filiau ynni?

James Evans *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

6 OQ58474 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

7 OQ58499 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws Gogledd Cymru?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

8 OQ58481 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog datganiad ynglŷn â chynnydd gyda'r cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

9 OQ58467 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi'r rhai sy'n defnyddio iaith arwyddion Prydain fel eu prif fodd o gyfathrebu?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

10 OQ58485 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion y Comisiwn ar Hil ac Anghyfartaledd Ethnig ar wella cysylltiadau hiliol yng Nghymru?

Luke Fletcher *Gorllewin De Cymru*

11 OQ58484 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol i sicrhau nad yw cynlluniau cymorth ariannol sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo pobl i ddelio â chostau byw cynyddol yn effeithio ar unrhyw fuddion sy'n dibynnu ar brawf modd?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

12 OQ58487 **(e)**

Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran dod o hyd i lety addas ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin yn Aberconwy?

CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

1 OQ58479 **(e)**

Pa sgyrsiau diweddar y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynglŷn â datganoli cyfiawnder?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

2 OQ58476 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn ymddiswyddiad Comisiynydd Dioddefwyr Lloegr a Chymru?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

3 OQ58486 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith ar Gymru a gaiff Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a gyflwynwyd yn ddiweddar?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

4 OQ58493 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o oblygiadau i Gymru o'r Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)?

Mabon ap Gwynfor *Dwyfor Meirionnydd*

5 OQ58497 **(w)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Weinidogion Cymru ynghylch eu gallu i warchod hawliau undebau llafur?

Delyth Jewell *Dwyrain De Cymru*

6 OQ58495 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i leihau gwahaniaethu ar sail hil o fewn y system gyfiawnder?

Mabon ap Gwynfor *Dwyfor Meirionnydd*

7 OQ58498 **(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar rôl y Goruchaf Lys wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

8 OQ58478 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion eraill y gyfraith ynghylch yr hawl i brotestio?

James Evans *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

9 OQ58472 **(e)**

Beth oedd y costau i Lywodraeth Cymru a oedd yn deillio o'r her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

10 OQ58475 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a'r amserlen a ragwelir ar gyfer dadansoddiad anghenion arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau yn y sector cyfreithiol yng Nghymru?

James Evans *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

11 OQ58473 **(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol nodi cost lawn y 36 Aelod ychwanegol arfaethgedig o'r Senedd?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

12 OQ58492 **(e)**

Sut y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ymgysylltu â Gweinidogion cyfatebol o fewn Llywodraeth y DU sydd newydd eu penodi i sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o fewn ei bortffolio yn cael eu cyflawni?

COMISIWN Y SENEDD

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

1 OQ58482 **(w)**

Pa ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal ar ystad y Senedd i gyd-fynd â chwpan pêl-droed y byd?